# Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

## Canllawiau Addysgu
## Uned 2

## UNED 2
## FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR DWF A DATBLYGIAD UNIGOLYN AR BOB CAM O'R RHYCHWANT OES

### Cyflwyniad:

Prif nod y canllawiau unedau hyn yw cefnogi'r broses o addysgu a dysgu ac i fod yn gydymaith i'r Fanyleb. Mae pob un o'r canllawiau unedau yn cynnig esboniad manwl o bwyntiau allweddol yn y Fanyleb gyda'r nod o esbonio meysydd cymhleth o gynnwys y pwnc.

### Rhaglen Astudio:

Mae'r gweithgareddau a ddarperir yma yn awgrymiadau ar gyfer datblygu gwybodaeth dysgwyr yn unig. Mae'n rhaid i bob canolfan benderfynu a yw'r gweithgareddau yn briodol i'w dysgwyr, a chydnabyddir y gall amodau lleol bennu'r dull a fabwysiedir. Er y gall rhai o'r gweithgareddau a awgrymir olygu ymgysylltu â'r sector, noder bod y mwyafrif o'r gweithgareddau wedi'u cynllunio i gael eu cynnal yn yr ystafell ddosbarth. Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth drwy'r profiad y byddant yn ei ennill wrth gyflawni pob gweithgaredd. Mae adborth ffurfiannol hanfodol i'r broses ddysgu, er mwyn sicrhau bod y dysgwr yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ennill y graddau gorau posibl. Mae enghreifftiau o weithgareddau wedi'u rhoi yn y canllawiau hyn sy'n cynnig digon o gyfle i roi adborth ffurfiannol.

### Trosolwg o'r cynnwys:

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolion ar bob rhan o'r rhychwant oes a'r effeithiau y gall hyn eu cael ar eu canlyniadau llesiant personol a'u hanghenion gofal a chymorth.

### Asesiad:

Gellir sefyll yr arholiad naill ai fel arholiad ar y sgrin neu fel papur ysgrifenedig yn ystod cyfres arholiadau mis Ionawr a/neu gyfres arholiadau mis Mai/Mehefin.

Mae angen ateb pob cwestiwn a bydd cwestiynau ateb byr wedi'u cymysgu â chwestiynau ateb hwy drwy'r papur.

© WJEC CBAC Cyf

## Enghraifft o raglen astudio ar gyfer:
## **Uned 2: Ffactorau sy'n effeithio ar unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes**

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Gwaith cartref |
|---|---|---|---|
| **2.1**<br>Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad dynol ar bob cam o'r rhychwant oes | Cyflwyno cynnwys yr uned a dulliau asesu<br><br>Cyflwyno/adolygu'r camau bywyd:<br>• Babandod: 0-2 oed<br>• Plentyndod: 3-12 oed<br>• Llencyndod: 13-19 oed<br>• Oedolaeth: 20-64 oed<br>• Oedolaeth ddiweddarach: 65+ oed.<br><br>Defnyddiwch enghraifft o grŵp teulu ag aelodau o bob cam bywyd, er enghraifft grŵp teulu neu gymeriadau o raglen deledu boblogaidd: edrychwch ar y pum cam bywyd a'r ystodau oedran ar gyfer pob un; defnyddiwch gêm paru cardiau i baru aelod o'r teulu, ystod oedran a cham bywyd; trafodwch yr atebion.<br><br>Diffiniwch dwf a datblygiad drwy gynnal trafodaeth dosbarth gyda'r siaradwr gwadd.<br>Trafodwch P.I.E.S. a disgrifiwch eu hystyr. ; bydd dysgwyr yn llunio tabl o'r camau bywyd, ystodau oedran cymeriadau a nodweddion allweddol datblygiad P.I.E.S. (Corfforol, Deallusol, Emosiynol, Cymdeithasol) ym mhob cam bywyd. | Enghraifft o astudiaeth achos o grŵp teulu o raglen deledu boblogaidd.<br><br>Cardiau cymysgu a chyfateb.<br><br>Siaradwr gwadd: Ymwelydd Iechyd. | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i feddwl am gwestiynau a'u hysgrifennu yn barod i'w gofyn i'r siaradwr gwadd<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |
| | Cyflwynwch y syniad bod gwahanol ffactorau'n effeithio arnom yn ystod pob cam bywyd ac yn effeithio ar ein twf, ein datblygiad a'n llesiant; rhai ffactorau rydyn ni, fel unigolion, yn gallu eu rheoli a rhai nad ydym yn gallu eu rheoli.<br><br>Dysgwyr i weithio mewn parau neu grwpiau bach i lunio map meddwl o'r ffactorau allweddol a all ddylanwadu ar unigolion. | | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Trafodwch y rhain fel dosbarth a chyfeiriwch at y ffaith y gall fod gwahanol gategorïau o ffactorau (ffisegol, cymdeithasol, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ymddygiad heriol, economaidd, addysg, dewisiadau ffordd o fyw, digwyddiadau mewn bywyd, iechyd meddwl).<br>Dysgwyr i ddosbarthu ffactorau y maent wedi'u nodi o'r map meddwl i bob categori a rhoi enghreifftiau o bob categori o ffactor. | | |
| | Trafodaeth dosbarth ynghylch yr effaith hirdymor y gallai'r ffactorau allweddol a nodwyd ei chael ar dwf a datblygiad dynol drwy gydol rhychwant oes.<br>Gan gynnwys: gorbryder, ymlyniad, ehangu profiadau, iselder, rhagori ar gerrig milltir (mwy abl a thalentog), peidio â chyflawni'r cerrig milltir disgwyliedig, stigma, trawsnewid, trawma.<br>Dysgwyr i ychwanegu effeithiau hirdymor posibl at y map meddwl o ffactorau allweddol a luniwyd mewn gwers flaenorol. | | Adnoddau ar-lein CBAC<br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |
| | Defnyddiwch yr astudiaeth achos enghreifftiol o *Wythnos 1* i roi senarios ac amgylchiadau unigol o bob cam bywyd i'r dysgwyr er mwyn iddynt ystyried beth a allai fod wedi effeithio ar gerrig milltir datblygiadol disgwyliedig unigolyn, yn gadarnhaol ac yn negyddol, yn y tymor byr a'r tymor hir.<br>Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac ymddygiad heriol a sut maent yn effeithio ar dwf a datblygiad dynol. | Enghraifft o astudiaeth achos o grŵp teulu o raglen deledu boblogaidd.<br><br>Gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru (Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod):<br>http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/88504 | Adnoddau ar-lein CBAC<br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |
| | Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch statws economaidd, profiadau addysgol, dewisiadau ffordd o fyw a digwyddiadau bywyd sy'n effeithio ar dwf a datblygiad dynol.<br>Defnyddiwch yr astudiaeth achos enghreifftiol o Wythnos 1 i roi senarios ac amgylchiadau unigol o bob cam bywyd i'r dysgwyr er mwyn iddynt ystyried beth a allai fod wedi effeithio ar gerrig milltir datblygiadol disgwyliedig unigolyn, yn gadarnhaol ac yn negyddol, yn y tymor byr a'r tymor hir. | Enghraifft o astudiaeth achos o grŵp teulu o raglen deledu boblogaidd. | Adnoddau ar-lein CBAC<br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |

© WJEC CBAC Cyf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch sut mae iechyd meddwl, ymddygiad heriol, ffactorau corfforol a ffactorau cymdeithasol yn effeithio ar dwf a datblygiad dynol.<br><br>Defnyddiwch yr astudiaeth achos enghreifftiol o Wythnos 1 i roi senarios ac amgylchiadau unigol o bob cam bywyd i'r dysgwyr er mwyn iddynt ystyried beth a allai fod wedi effeithio ar gerrig milltir datblygiadol disgwyliedig unigolyn, yn gadarnhaol ac yn negyddol, yn y tymor byr a'r tymor hir. | | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos. |
| | Defnyddiwch yr astudiaeth achos enghreifftiol o Wythnos 1, dysgwyr i lunio map meddwl mewn parau neu grwpiau bach o sut y gellid mynd i'r afael ag effaith tymor hir ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad ar bob cam o'r rhychwant oes.<br><br>Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch canlyniadau llunio map meddwl ar y canlynol:<br>• modelu, hyfforddiant sgiliau cymdeithasol a gweithgareddau sy'n gallu helpu unigolion i sicrhau gwell annibyniaeth, gwydnwch neu adsefydlu (dysgu cymdeithasol)<br>• sicrwydd, anogaeth, dilysiad a chysylltiadau ag ymlyniadau a datblygiadau<br>• hunanhyder, hunanddibyniaeth, hunan-barch, hunangysyniad a meithrin gwydnwch, darparu cryfder a chapasiti er mwyn diwallu eu hanghenion eu hunain neu geisio cefnogaeth o adnoddau cymunedol a syniadau person-ganolog. | Enghraifft o astudiaeth achos o grŵp teulu o raglen deledu boblogaidd. | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwyr i lunio eu hadnodd hawdd ei ddeall eu hunain (e.e. poster neu daflen) am dechnoleg newydd. |

© WJEC CBAC Cyf

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Gwaith cartref |
|---|---|---|---|
| **2.2**<br>Modelau sy'n gysylltiedig â ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad ar bob rhan o'r rhychwant oes | Cyflwyno'r cysyniadau sylfaenol sy'n gysylltiedig â damcaniaethau sefydledig a meini prawf presennol a'r ffordd maent yn gysylltiedig â'i gilydd.<br><br>Dysgwyr i ymchwilio i'r damcaniaethau canlynol a sut maent yn ymwneud â ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad mewn parau neu grwpiau bach i'w cyflwyno i'r dosbarth ar ffurf cyflwyniad neu gynhadledd â thaflenni a luniwyd gan bob pâr/grŵp am eu canfyddiadau eu hunain:<br>• Damcaniaeth Ymddygiad: Pavlov, Skinner/Watson<br>• Damcaniaeth Fiolegol: Gesell<br>• Damcaniaeth Wybyddol a Damcaniaethau Datblygiadol eraill: Aaron Beck, Piaget, Vygotsky, Erikson<br>• Damcaniaeth Ecolegol: Bronfenbrenner<br>• Damcaniaethau Datblygiad Dynol: Damcaniaeth Ymlyniad Bowlby, Damcaniaeth Ymddieithrio Heneiddio Cumming a Henry, Natur/Magwraeth<br>• Damcaniaeth Dyneiddiol: Maslow, Rogers<br>• Damcaniaeth Seicogymdeithasol: Erikson<br>• Damcaniaeth Dysgu Cymdeithasol: Bandura, Vygotsky.<br><br>Yn dilyn y cyflwyniadau/cynadleddau, dysgwyr i gymharu a gwerthuso'r nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau rhwng y damcaniaethau a gyflwynwyd i'w trafod ymhellach.<br><br>Gan ddefnyddio astudiaethau achos o wythnos 1, gellid rhannu'r dysgwyr yn grwpiau a rhoi damcaniaeth iddynt a gofyn iddynt wneud nodiadau am sut y byddai'r ddamcaniaeth yn ymwneud ag ymddygiad yr unigolyn hwnnw. Yna, byddai'r canfyddiadau hyn yn arwain at drafodaeth dosbarth ynghylch sut mae gwahanol ddamcaniaethau yn ymwneud ag ymddygiad. | https://www.simplypsychology.org/developmental-psychology.html<br><br>Enghraifft o astudiaeth achos o grŵp teulu o raglen deledu boblogaidd. | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ar gyflwyniad eu grŵp eu hunain a chyflwyniadau grwpiau eraill. |

© WJEC CBAC Cyf

| Maes Testun | Gweithgareddau | Adnoddau | Gwaith cartref |
|---|---|---|---|
| **2.3**<br>Dulliau o hybu ac amddiffyn gwydnwch | Trafodaeth dosbarth ynghylch ystyr y term "Gwydnwch"<br>Dylid rhannu dysgwyr yn barau a gofyn iddynt ystyried pa mor bwysig ydyw bod unigolion yn wydn er mwyn iddynt dyfu a datblygu ar bob cam o'r rhychwant oes<br>Dysgwyr yn gwneud nodiadau o syniadau.<br><br>Parau i ymchwilio i ddulliau y gallent eu defnyddio i hybu ac amddiffyn gwydnwch a chyflwyno canfyddiadau<br><br>Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch y dulliau o hybu ac amddiffyn gwydnwch, gan gynnwys:<br>• annog unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau therapiwtig a gweithgareddau hamdden yn y gymuned leol a chynyddu rhwydweithiau cymdeithasol e.e. celfyddydau cymunedol a gweithgareddau creadigol<br>• ymgysylltu ag unigolion er mwyn iddyn nhw fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant corfforol drwy wneud newidiadau ffordd o fyw<br>• hybu dull cadarnhaol, sy'n datrys problemau a safbwynt optimistaidd<br>• hybu amgylcheddau cadarnhaol sy'n flaengar ac yn hybu cryfderau ac amrywiaeth<br><br>Gan ddefnyddio'r astudiaeth achos enghreifftiol o wythnos 1, dysgwyr i lunio taflen am y dulliau y gallent eu defnyddio i hybu ac amddiffyn gwydnwch yr unigolion ar bob cam datblygu allweddol ar bob cam o'r rhychwant oes. | https://icc.gig.cymru/files/resilience/cydnerthedd-deall-y-rhyng-ddibyniaeth-rhwng-unigolion-a-chymunedau/.<br><br>www.mind.org.uk/information-support/types-of-mental-healthproblems/stress/managing-stress-and-building-resilience<br><br>Enghraifft o astudiaeth achos o grŵp teulu o raglen deledu boblogaidd. | Adnoddau ar-lein CBAC<br><br>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos |
| | Adolygu: Paratowch ddysgwyr ar gyfer asesiad allanol – defnyddiwch ddeunyddiau asesu enghreifftiol ar gyfer uned 2 sydd ar gael ar wefan dysguiechydagofal.cymru. | | |

© WJEC CBAC Cyf